Law Commission
Reforming the law

Cyfraith Gynllunio Cymru

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfraith un awdurdodaeth, Cymru a Lloegr, ond gyda datganoli, mae'r gyfraith sy'n effeithiol yng Nghymru yn gynyddol wahanol i Loegr mewn meysydd polisi datganoledig. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd y gallwn ymgymryd â phrosiectau a anelir at ddiwygio'r gyfraith fel mae'n effeithio ar un yn unig o'r ddwy wlad sy'n rhan o'r awdurdodaeth.

Rydym eisoes wedi cael trafodaethau rhagarweiniol â Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o brosiect ar gyfraith gynllunio Cymru. Yn y lle cyntaf, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried argymhellion Llywodraeth Cymru i wneud diwygiadau sylweddol i gyfraith gynllunio yng Nghymru yn fuan , ond ar hyn o bryd mae'n rhaid iddi wneud hyn yng nghyd-destun y gyfraith bresennol i'r ddwy wlad. Ond mae'r gyfraith bresennol ar gyfer yr holl awdurdodaeth yn cael ei chreu ar gyfer awdurdodaeth â 340 o awdurdodau cynllunio a phoblogaeth o 56 miliwn, gyda graddfa o ddatblygu sy'n cyfateb. Mae'n bosibl y byddai strwythurau cyfreithiol eraill yn berthnasol i wlad â 3.1 miliwn o bobl a 25 awdurdod cynllunio.

Dyma un prosiect ar gyfer Cymru yn unig i ni ei ystyried, ac rydym yn croesawu argymhellion eraill.